Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Jenny Williams
Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol
ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Coed Pella
Bae Colwyn, LL29 7AZ

Dyddiad: 26/11/2026

Annwyl Jenny,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 21 a 25 Medi 2026. Gwnaethom gynnal gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf 2014 ac yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

Pobl – llais a rheolaeth

- Pa mor dda y caiff plant a phobl ifanc a'u teuluoedd eu trin fel partneriaid cyfartal, a pha mor dda y caiff eu llais, dewis a rheolaeth eu hadlewyrchu mewn asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth, penderfyniadau diogelu, gwaith cynllunio sefydlogrwydd ac adolygiadau?
- I ba raddau y mae'r gweithlu yn cynnwys niferoedd a sgiliau digonol, ac i ba raddau y mae'n ddigon sefydlog ac yn cael ei gefnogi'n ddigonol i gyflawni ymarfer amserol, sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

Atal

- Pa mor effeithiol y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau, y caiff yr angen i uwchgyfeirio materion ei atal, ac y caiff y canlyniadau gorau eu cyflawni i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd?

- Pa mor dda y caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle y bo hynny'n ddiogel ac er lles pennaf y plentyn, drwy ddulliau amserol ac ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys gofal cam-i-lawr effeithiol a chymorth i ofalwyr ifanc?
- Pa mor dda y caiff cysylltiadau mynych, ailasesiadau ac ailatgyfeiriadau eu deall ac yr ymatebir iddynt, gan gynnwys effeithiolrwydd cymorth cynnar wrth ddiwallu anghenion a lleihau nifer y materion y mae angen eu huwchgyfeirio.

Llesiant

- Pa mor dda y caiff plant eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed?
- I ba raddau y caiff risgiau, ffactorau amddiffynnol, niwed cronnus, gallu rhieni a phrofiadau bywyd plant eu dadansoddi'n dda, gyda chynlluniau amddiffyn effeithiol, cynlluniau gofal a chymorth a chamau gweithredu amserol i ddiogelu plant a phobl ifanc a hybu eu lles?
- Pa mor dda y caiff plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya eu cefnogi drwy leoliadau diogel, addas a sefydlog sy'n hybu eu llesiant, a pha mor effeithiol y caiff y pwysau o ran digonolrwydd lleoliadau ei oruchwylio a'i liniaru?

Partneriaeth

- I ba raddau y mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau integredig, cynaliadwy o ansawdd uchel, gan gynnwys pa mor dda y caiff plant a phobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr eu galluogi i ddylanwadu ar y ffordd y caiff y gofal, y cymorth a'r gwasanaethau y maent yn eu cael eu dylunio a'u darparu?
- Pa mor dda y mae trefniadau partneriaeth yn cefnogi ymatebion amserol, cydgysylltiedig ac effeithiol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys lle mae anghenion yn gymhleth neu lle mae angen cymorth amlasiantaethol?

2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae'r Gwasanaethau Plant yn sefydlog ac yn cael eu cefnogi gan weithlu ymroddedig. Ceir ffocws cryf ar ddeall profiadau bywyd plant a chynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau. Disgrifiodd yr ymarferwyr a'r arweinwyr ddiwylliant myfyriol a chefnogol, gydag ymrwymiad clir i sicrhau ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, dysgu a gwella.

3.2 Mae arweinyddiaeth weladwy a hygyrch, cymorth corfforaethol cryf a buddsoddiad i ddatblygu'r gweithlu yn cyfrannu at sefydlogrwydd y gwasanaethau. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion goruchwylio bob amser yn dangos hyd a

lled trafodaethau myfyriol nac yn cysylltu camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn glir â chanlyniadau bwriadedig i blant a theuluoedd.

3.3 Mae atal yn flaenoriaeth strategol glir. Mae'r Canolfannau i Deuluoedd, y gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd a threfniadau cymunedol ehangach yn darparu cymorth hygyrch a werthfawrogir i blant a theuluoedd. Mae angen mwy o gysondeb i sicrhau y gall asesiadau ac ymyriadau fynd rhagddynt heb oedi diangen ac y caiff pryderon eu huwchgyfeirio'n brydlon pan na fydd amgylchiadau plant yn gwella.

3.4 Mae'r trefniadau ar gyfer arwain, llywodraethu a goruchwylio prosesau diogelu yn sicrhau bod prosesau craffu a her broffesiynol ar waith. Roedd yr ymarfer diogelu yn amserol ac yn ymatebol yn y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a welwyd, wedi'i gefnogi gan gydweithrediad amlasiantaethol effeithiol. Byddai'r ymarfer yn cael ei gryfhau drwy wneud defnydd mwy cyson o gronolegau a chynnwys yr holl ymarferwyr perthnasol mewn trafodaethau strategaeth pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hynny.

3.5 Mae trefniadau partneriaeth sefydledig yn cefnogi ymatebion cydlynol i blant a theuluoedd, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth. Mae cynnydd yn cael ei wneud i gryfhau opsiynau lleoli lleol. Fodd bynnag, gall bylchau yn argaeledd a pharhad mewnbwn iechyd a niwroddatblygiadol arbenigol arwain at oedi cyn gwneud penderfyniadau ar y cyd a darparu cymorth cydlynol i rai plant a theuluoedd. Nid yw partneriaid bob amser yn dod i gytundeb amserol ynghylch y trefniadau cymorth neu leoli mwyaf priodol, yn enwedig pan fydd angen cytuno ar gyfrifoldebau a threfniadau ariannu. Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phartneriaid i gryfhau prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd, cytundebau ariannu a threfniadau uwchgyfeirio.

3.6 Dylid cryfhau trefniadau er mwyn sicrhau bod dewisiadau pobl o ran y Gymraeg yn cael eu bodloni, bod rhwydweithiau teuluol ehangach yn cael eu hystyried fel mater o drefn drwy gynadleddau grŵp teulu, a bod gofalwyr di-dâl a rhieni sy'n ofalwyr yn cael cymorth amserol ac ymatebol. Dylid hefyd sicrhau bod mwy o gyfleoedd i gael gwasanaethau eirioli ffurfiol lle byddai hyn yn helpu rhieni i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau.

4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Nodir isod y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl

Cryfderau

4.1 Ceir ffocws cryf ar ddeall profiadau bywyd plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwaith uniongyrchol, arsylwadau a dulliau sy'n briodol i oedran i ddeall dymuniadau, teimladau a phrofiadau'r plant o ddydd i ddydd. Mae hyn yn llywio asesiadau unigol, cynlluniau gofal a chymorth, gwaith cynllunio sefydlogrwydd ac adolygiadau.

4.2 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i wrando ar leisiau plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt. Ar lefel ymarfer unigol, mae gweithwyr cymdeithasol mewn timau gofal plant yn eirioli dros blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan sicrhau bod eu

barn a'u profiadau bywyd yn cael eu cynrychioli mewn asesiadau, cynlluniau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

4.3 Drwy Gyngor Ieuenctid Conwy, mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a chyfrannu at gyfarfodydd craffu, prosesau datblygu polisïau a gwaith ehangach i wella gwasanaethau. Mae eu barn hefyd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu cartrefi plant lleol. Mae hyn yn dangos bod ymdrechion i'w cynnwys ar waith ar lefel unigol a strategol a bod hynny'n galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.4 Mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau cadarnhaol i roi dull sy'n ystyried hawliau plant ar waith yn ei brosesau cynllunio ariannol a'i brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae ei ddull sy'n datblygu yn adlewyrchu canllawiau Comisiynydd Plant Cymru ar gyllidebu ar gyfer hawliau plant, gan gynnwys ystyried sut mae penderfyniadau ar adnoddau yn effeithio ar hawliau a chanlyniadau plant. Mae'r bwriad i gynnwys plant a phobl ifanc yn y prosesau hyn yn darparu sylfaen i'w barn ddylanwadu ar flaenoriaethau o ran gwariant ac ar y broses o ddyrannu adnoddau.

4.5 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi plant, teuluoedd a gofalwyr wrth wraidd ei waith. Mae'r arweinwyr yn pennu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar gryfderau, maent yn hawdd mynd atynt, ac yn dangos arweinyddiaeth weladwy a chydberthynol sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn creu diwylliant o ymddiriedaeth, dysgu ac ymreolaeth broffesiynol, lle mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i weithio gyda phlant, teuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach i ddeall risgiau, nodi cryfderau a chytuno ar ganlyniadau y gellir eu cyflawni. Mae gwerthoedd a rennir yn amlwg yn yr ymarfer ac mewn cydberthnasau ar draws gwasanaethau a chyda phartneriaid, gan gefnogi plant a theuluoedd i ddylanwadu ar asesiadau, cynlluniau a'r cymorth y maent yn ei gael. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.6 Mae arweinwyr profiadol, gweladwy a hygyrch yn goruchwylio'r ymarfer rheng flaen ac yn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae ymarferwyr yn disgrifio diwylliant cadarnhaol a chefnogol sy'n hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol, her adeiladol, cyfleoedd i fyfyrio, dysgu a gwella. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio ar ofynion eu gwaith. O blith y 116 o ymarferwyr a gwblhaodd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru, **roedd bron pob un (98%) yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr ac roedd y rhan fwyaf (95%) yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr**. Mae hyn yn cyfrannu at weithlu sefydlog a gwydn sy'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.7 Mae'r Gwasanaethau Plant yn elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol cryf. Mae aelodau etholedig yn dangos dealltwriaeth o flaenoriaethau, risgiau a pherfformiad y Gwasanaethau Plant ac yn darparu cymorth a her briodol drwy drefniadau llywodraethu sefydledig. Disgrifiodd yr arweinwyr gydberthnasau adeiladol ag aelodau etholedig, a gwelwyd tystiolaeth bod y Gwasanaethau Plant yn parhau i chwarae rhan amlwg mewn penderfyniadau corfforaethol ehangach. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.8 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu ei weithlu. Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol ac yn gyson wrth sôn am y cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael iddynt, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder proffesiynol. Caiff dull strwythuredig o sefydlu,

mentora a chynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ei ategu gan gyfleoedd i unigolion gamu ymlaen yn eu gyrfa a datblygu arweinyddiaeth. Mae'r trefniadau hyn yn helpu ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu o fewn y sefydliad, gan gyfrannu at allu'r sefydliad i gadw aelodau'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a sicrhau gwydnwch. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

Meysydd i'w Gwella

4.9 Gwnaethom nodi enghreifftiau lle y gallai rhieni fod wedi elwa ar gymorth eirioli ffurfiol. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig cyfleoedd i rieni gael eiriolaeth annibynnol fel rhan o achosion llys, gan gynnwys proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac fel rhan o rai prosesau amddiffyn plant ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion eirioli rhieni y tu allan i'r prosesau hyn yn llai cyson. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r trefniadau ar gyfer nodi anghenion eirioli rhieni a sicrhau bod cymorth eirioli ffurfiol priodol ar gael y tu allan i brosesau'r llys a phrosesau amddiffyn plant ffurfiol.**

4.10 Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi sesiynau goruchwylio rheolaidd ac yn disgrifio cymorth cadarn gan eu rheolwyr, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrio ar eu hymarfer a'u llesiant. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion goruchwylio bob amser yn dangos hyd a lled trafodaethau myfyriol nac yn cysylltu camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn glir â'r canlyniadau bwriadedig i blant a theuluoedd. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau cysondeb ac ansawdd cofnodion goruchwylio fel bod tystiolaeth glir o drafodaethau myfyriol, camau gweithredu y cytunwyd arnynt, cyfrifoldebau ac amserlenni.**

4.11 Mae'r awdurdod lleol yn cofnodi anghenion a dewisiadau pobl o ran y Gymraeg mewn cofnodion gofal electronig, ac mae ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu cymorth. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion bob amser yn dangos a oedd asesiadau, adolygiadau ac ymyriadau wedi cael eu cynnig a'u cynnal yn Gymraeg os mai dyna oedd dewis yr unigolyn. Nododd ymarferwyr hefyd y gall templedi Saesneg yn unig olygu bod yn rhaid cyfieithu gwaith sy'n cael ei gwblhau yn Gymraeg, gan greu gwaith ychwanegol diangen a'i gwneud hi'n fwy anodd ymarfer yn Gymraeg yn gyson. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ei systemau a'i drefniadau sicrwydd, gan gynnwys darparu templedi dwyieithog addas, er mwyn sicrhau bod anghenion a dewisiadau pobl o ran y Gymraeg yn cael eu diwallu a'u bodloni a bod yr iaith y caiff cymorth ei gynnig a'i ddarparu ynddi yn cael ei chofnodi'n glir.**

4.12 Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaeth Cynadleddau Grŵp Teulu. Gellir gwneud atgyfeiriadau o'r adeg y daw Canolfan i Deuluoedd yn rhan o'r broses er mwyn gallu cynnwys aelodau ehangach o'r teulu wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae cymryd rhan yn benderfyniad gwirfoddol, ac efallai y bydd rhai teuluoedd yn gwrthod i ddechrau ond yn cytuno'n ddiweddarach. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion bob amser yn dangos a oedd Cynhadledd Grŵp Teulu wedi cael ei hystyried, ei chynnig, ei gwrthod neu ei chynnig eto. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn cofnodi ymateb y teulu ac unrhyw benderfyniad i gynnig cynhadledd eto yn glir.**

4.13 Mae cymorth i ofalwyr di-dâl a rhieni sy'n ofalwyr yn anghyson. Er bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig, nid yw'r cymorth sy'n deillio o hyn bob amser yn ddigon amserol, nac yn ymateb i'r pwysau a wynebir gan ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod gofalwyr di-dâl a rhieni sy'n**

ofalwyr yn cael cymorth amserol ac ymatebol sy'n adlewyrchu'r anghenion cymwys a nodwyd ar gyfer y gofalwyr a'u teuluoedd.

Atal

Cryfderau

4.14 Mae atal yn flaenoriaeth strategol glir. Mae help cynnar, cymorth wedi'i dargedu a phrosesau atal argyfyngau wedi'u cysylltu drwy lwybrau cydlynol, gan gynnwys y gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd, y Canolfannau i Deuluoedd a threfniadau ymyrryd yn gynnar ehangach. Mae'r llwybrau hyn yn helpu plant a theuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac yn hyrwyddo parhad ar draws gwasanaethau cyffredinol, gwasanaethau wedi'u targedu a gwasanaethau statudol.

4.15 Mae'r Panel Ar Ffiniau Gofal a'r Panel Ymyrryd yn Gynnar yn cynnig fforymau amlasiantaethol gwerthfawr i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth, asesu ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, a chytuno ar y cymorth mwyaf priodol. Mae timau gwaith cymdeithasol gofal plant yn gwneud cyfraniad pwysig drwy rannu gwybodaeth gyfredol am gyfranogiad statudol, profiadau bywyd plant a chyd-destun ehangach y teulu. Mae hyn yn cefnogi penderfyniadau gwybodus ac ymyriadau cydlynol cynharach i atal anghenion rhag gwaethygu a, lle y bo'n ddiogel ac er lles pennaf y plant, helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.16 Mae'r Canolfannau i Deuluoedd yn gryfder penodol. Maent yn darparu cymorth croesawgar, hygyrch a chymunedol i ddiwallu lefelau gwahanol o angen ac yn cael eu defnyddio'n dda a'u gwerthfawrogi gan blant a phobl ifanc, teuluoedd, ymarferwyr ac asiantaethau partner. Mae eu hamgylchedd llai ffurfiol yn helpu teuluoedd i gael cymorth pan fydd ei angen arnynt, yn annog ymgysylltiad cynnar ac yn galluogi ymarferwyr i weithio ochr yn ochr â theuluoedd cyn i anawsterau waethygu. Mae'r Canolfannau i Deuluoedd hefyd yn helpu i sicrhau y gall cydberthnasau barhau ymhlith teuluoedd sy'n cael cymorth statudol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.17 Mae'r gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd yn adnodd amlddisgyblaethol gwerthfawr, sy'n darparu ymyriadau cynnar a chymorth Ar Ffiniau Gofal. Mae ymarferwyr yn meddu ar arbenigedd ym maes gwaith cymdeithasol, cymorth therapiwtig, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, plismona a gwasanaethau prawf. Mae plant a theuluoedd yn cael cymorth wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar gydberthnasau, sy'n ategu cynlluniau presennol y Gwasanaethau Plant, yn adeiladu ar eu cryfderau ac yn eu helpu i nodi nodau a rhwystrau sy'n atal newidiadau. Mae'r Tîm Cymorth Sesiynol yn darparu cymorth hyblyg ac ymarferol sy'n seiliedig ar gydberthnasau i blant a theuluoedd, gan ategu'r ymyriadau arbenigol a ddarperir drwy 'r gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd. Mae Prosiect Myfyrio yn darparu cymorth pwrpasol i rieni y mae eu plant wedi cael eu symud o'u gofal yn barhaol drwy achosion gofal. Dywedodd teuluoedd eu bod yn teimlo bod eu yn cael clust i wrando, a'u bod yn cael eu deall a'u cefnogi i wneud newidiadau cynaliadwy. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.18 Mae'r arweinwyr yn defnyddio archwiliadau, adolygiadau, adborth gan y gweithlu, digwyddiadau critigol, gwybodaeth am berfformiad a dadansoddiadau o deithiau plant drwy wasanaethau i ddeall ble y gellir ymyrryd yn gynharach a ble y gellir cryfhau trefniadau ataliol. Dangosodd tystiolaeth ffocws ar ddeall profiadau a chanlyniadau plant ochr yn ochr â data ar berfformiad.

Meysydd i'w Gwella

4.19 Mae rhai cofnodion yn dangos oedi cyn cwblhau asesiadau neu fwrw ati ag ymyriadau a gynlluniwyd. Hefyd, lle nad yw cymorth parhaus yn gwella profiadau bywyd plant, nid yw'r camau uwchgyfeirio na'r camau dilynol bob amser yn ddigon amserol. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r broses o oruchwylio asesiadau ac ymyriadau er mwyn sicrhau cynnydd heb oedi diangen ac y caiff pryderon eu huwchgyfeirio'n brydlon pan na fydd amgylchiadau plant yn gwella.**

Llesiant

Cryfderau

4.20 Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau arwain, llywodraethu a goruchwylio sefydledig ar gyfer prosesau diogelu. Mae cyflwyno capasiti diogelu ychwanegol wedi cryfhau her broffesiynol, prosesau craffu a chymorth ar draws y Gwasanaethau Plant. Disgrifiodd yr arweinwyr ddull bwriadol o oruchwylio prosesau diogelu sy'n hyrwyddo cysondeb, cyfleoedd i fyfyrio a'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus.

4.21 Roedd yr ymarfer diogelu yn amserol ac yn ymatebol yn y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a welwyd. Gwelsom asesiadau risg prydlon, gwaith cynllunio diogelwch cydlynol, camau goruchwylio gan y rheolwyr ac achosion o uwchgyfeirio am gyngor cyfreithiol pan oedd angen.

4.22 Ymdrinnir ag ymholiadau Adran 47 mewn modd amserol a chymesur, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (WSP). Mae'r ymholiadau yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnwys gwaith ymgysylltu uniongyrchol â'r plentyn ac aelodau perthnasol o'r teulu. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cefnogi dadansoddiadau a phenderfyniadau gwybodus ynghylch a yw'r plentyn yn parhau i wynebu risg o niwed sylweddol ac a oes angen camau diogelu pellach.

4.23 Ystyrir yn briodol a ddylid cymhwyso Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru pan fydd pryderon yn codi am unrhyw unigolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ymarferwyr awdurdodau lleol, ymarferwyr mewn asiantaethau partner, a gwirfoddolwyr. Mae hyn yn cefnogi dull diogelu cyson ac yn hyrwyddo'r broses o amddiffyn plant a phobl ifanc a sicrhau eu llesiant.

4.24 Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau'r cyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelu ar draws yr awdurdod lleol, gan bwysleisio bod diogelu yn gyfrifoldeb a rennir y tu hwnt i'r Gwasanaethau Plant. Mae hyfforddiant ar ddiogelu yn gynhwysfawr, wedi'i ddatblygu'n dda ac yn hygyrch i ymarferwyr, rheolwyr ac asiantaethau partner, gan gefnogi dealltwriaeth gyson o gyfrifoldebau, prosesau gwneud penderfyniadau ac amserlenni yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.25 Mae partneriaid yn disgrifio trefniadau diogelu ymatebol a hygyrch, a gwelwyd tystiolaeth o brosesau rhannu gwybodaeth cydlynol, her broffesiynol a pherchnogaeth ar y cyd dros risg. Mae'r trefniadau partneriaeth ar gyfer camfanteisio a risg y tu allan i'r cartref yn gryfder amlwg, gan gefnogi ymatebion cydlynol i bryderon cyd-destunol cymhleth am ddiogelu.

4.26 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau digonolrwydd lleoliadau ac i leihau dibyniaeth ar drefniadau lleoli eithriadol neu lai addas. Roedd y

dystiolaeth a welwyd yn dangos bod mwy o blant yn byw mewn lleoliadau yn agosach at eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'r cynnydd hwn, ochr yn ochr â gwaith parhaus i gryfhau'r ddarpariaeth maethu a'r ddarpariaeth breswyl leol, yn darparu sylfaen gryfach i ddiwallu anghenion plant yn eu cymunedau.

Meysydd i'w Gwella

4.27 Ni ddefnyddir cronolegau'n gyson i greu darlun clir o brofiadau plant dros amser. Gall hyn gyfyngu ar allu ymarferwyr i nodi patrymau, niwed cronnus a risg gynyddol, a allai oedi camau gweithredu i amddiffyn plant a gwella eu hamgylchiadau. Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cronolegau eu defnyddio'n gyson i gasglu digwyddiadau o bwys, newidiadau ym mhrofiadau bywyd plant ac effaith ymyriadau blaenorol ynghyd. Dylai hyn gryfhau gwaith dadansoddi risg a phrosesau gwneud penderfyniadau, cefnogi ymyriadau cynharach a mwy effeithiol, a helpu plant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n gywir ar yr adeg gywir. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cronolegau eu defnyddio'n gyson i ddeall profiad bywyd pob plentyn dros amser, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg neu'n cynyddu, a chefnogi penderfyniadau ac ymyriadau amserol sy'n gwella diogelwch a llesiant plant.**

4.28 Mae cyfarfodydd dyddiol yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn cynnig fforwm i asiantaethau partner drafod pryderon a rhannu gwybodaeth. Pennir y trefniadau ar gyfer trafodaethau strategaeth o dan Adrannau 3 a 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru fesul achos, gan ystyried natur, difrifoldeb ac amgylchiadau'r pryder. Caiff asiantaethau partner perthnasol eu cynnwys lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a welwyd yn dangos nad oedd llunwyr adroddiadau ac ymarferwyr a oedd eisoes yn ymwneud â'r plentyn a'r teulu bob amser wedi cael eu gwahodd lle y gallai eu cyfraniad fod wedi cefnogi'r drafodaeth. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff pob ymarferydd perthnasol, gan gynnwys llunwyr adroddiadau ac ymarferwyr sydd eisoes yn ymwneud â'r plentyn a'r teulu, eu gwahodd i drafodaethau strategaeth pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.**

4.29Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol mewn perthynas â chynllunio digonolrwydd a darpariaeth leol, mae heriau o hyd o ran sicrhau lleoliadau lleol addas i rai plant ag anghenion cymhleth iawn. I rai plant, mae bylchau neu oedi wrth geisio cael cymorth iechyd a niwroddatblygiadol arbenigol yn rhwystr sylweddol i ddiwallu eu hanghenion yn lleol a datblygu trefniadau cynaliadwy. Dylai'r awdurdod lleol barhau i gryfhau opsiynau lleoli lleol a gweithio gyda phartneriaid perthnasol i wella'r gallu i gael cymorth arbenigol mewn modd amserol a monitro effaith y pwysau hyn ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Partneriaeth

Cryfderau

4.30 Mae trefniadau partneriaeth strategol a gweithredol wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi. Disgrifiodd partneriaid gydberthnasau hirdymor a dibynadwy ar draws asiantaethau a sefydliadau. Mae cyfathrebu uniongyrchol, her adeiladol a llwybrau uwchgyfeirio clir yn cefnogi prosesau rhannu gwybodaeth effeithiol a gwaith cynllunio cydlynol. Mae hyn yn helpu i leihau risg, cryfhau gwydnwch teuluoedd ac atal anghenion rhag gwaethygu. Mae'r dull a rennir yn hyrwyddo ymrwymiad ar y cyd i wella canlyniadau i blant a theuluoedd. **Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr (93%) yn cytuno bod asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol, a nododd saith o'r wyth**

rhanddeiliad a ymatebodd i'r arolwg gyfathrebu da rhwng timau awdurdodau lleol hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth cadarnhaol a gafwyd drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid a grwpiau ffocws. Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.

4.31 Mae integreiddio Addysg a Gwasanaethau Plant ar lefel gorfforaethol yn cefnogi ymarfer diogelu ac ymarfer ataliol. Mae cydgysylltiad agosach rhwng gwasanaethau yn helpu i nodi anghenion yn gynharach ac yn hyrwyddo ymyriadau amserol a chymorth cydlynol i blant a theuluoedd. Mae'r trefniadau hyn yn cryfhau prosesau rhannu gwybodaeth, yn gwella parhad cymorth ac yn cyfrannu at waith cynllunio mwy cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.32 Mae gwaith amlasiantaethol yn cefnogi ymatebion cydlynol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac arbenigol. Mae ymarferwyr o wasanaethau anableddau, seicoleg, nyrsio anableddau dysgu a gwasanaethau arbenigol eraill yn cyfrannu eu harbenigedd at asesiadau, gwaith cynllunio ac ymyriadau. Mae cydweithio rhwng Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a Therapi Iaith a Lleferydd yn helpu ymarferwyr i ddeall ac ymateb i anghenion cyfathrebu plant. Mae trefniadau partneriaeth hefyd yn cefnogi ymatebion cydlynol i achosion o gamfanteisio, plant sydd ar goll a risgiau y tu allan i gartref y teulu.

4.33Mae cydweithio strategol yn cryfhau gwasanaethau cymunedol ac opsiynau lleoli lleol. Mae datblygiadau'n cynnwys model Bwthyn y Ddôl, trefniadau maethu Reconnect, cynllunio digonolrwydd rhanbarthol a chymorth seicolegol integredig fel rhan o wasanaethau ataliol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i leihau dibyniaeth ar leoliadau cost uwch ac yn galluogi mwy o blant i aros yn agosach at eu teuluoedd a'u cymunedau lle y bo'n briodol.

Meysydd i'w Gwella

4.34 Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw gwahaniaethau o ran blaenoriaethau sefydliadol, safbwyntiau proffesiynol, trothwyon, cyfrifoldebau statudol a threfniadau ariannu bob amser yn gyson nac yn cael eu datrys yn brydlon. Gall hyn arwain at oedi cyn cytuno ar y cymorth neu'r lleoliad mwyaf priodol i blant ag anghenion cymhleth iawn. Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i gryfhau prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd amserol a llwybrau uwchgyfeirio pan fydd cyfrifoldebau, blaenoriaethau neu drefniadau ariannu yn wahanol. Dylai hyn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth cydlynol sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth a rennir o'u hamgylchiadau, eu hanghenion a'u canlyniadau bwriadedig.

4.35 Fodd bynnag, mae newidiadau o ran rolau strategol allweddol yn y bwrdd iechyd wedi effeithio ar barhad rhai trafodaethau strategol ar y cyd a datblygiadau i wasanaethau. Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth cydlynol a pharhaus, gyda llwybrau uwchgyfeirio clir a phenderfyniadau ar y cyd amserol sy'n gwella eu diogelwch, eu llesiant a'u canlyniadau.

5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

6. Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 26 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 22 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â saith person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 61 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, Rheolwyr Tîm, Rheolwyr Gweithredol, Pennaeth y Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.
- Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gydag 17 o randdeiliaid ac 13 o blant a phobl ifanc.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol y tro hwn. Gwnaethom gynnal ein cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Strategol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr archwiliad sicrwydd hwn.

8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.
Dylai	Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n

	arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau'r cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Atodiad 2

Tabl Diffinio Meintiau

Terminoleg	Diffiniad
Bron pob un	Heb fawr ddim eithriadau
Rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	Dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	Yn agos at 50%
Lleiafrif	Llai na 40%
Ychydig	Llai nag 20%
Ychydig iawn	Llai na 10%